

# Paratoi ar gyfer Gofal Iechyd

Beth i'w ddisgwyl wrth astudio rhaglen Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd

# Cynnwys


3 **Cyflwyniad i'r canllaw**
4 **Dysgu ac Addysgu**
5 *Dysgu Canolog - Amgylchedd Dysgu Rhithwir*
5 *Darlithoedd*
6 *Seminarau*
6 *Tiwtorialau*
7 *Gweithdai*
8 *Efelychiadau*
10 *Sesiynau Ymarferol / Sgiliau*
12 *Dysgu ar-lein*
13 *Sgiliau astudio annibynnol (hunan-astudio)*
13 **Offer TG**
14 **Asesu**
14 *Aseiniadau*
14 *Cyflwyniadau*
15 *Asesiad ymarferol*
16 *Portffolios*
16 *Lleoliad clinigol / dysgu seiliedig ar ymarfer*
16 *Cael adborth*
17 **Dysgu seiliedig ar ymarfer a lleoliadau clinigol**
21 **Hyfforddiant gorfodol**
22 *Addasrwydd i Ymarfer*
23 *Tystysgrif Fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd*
23 **Iechyd Galwedigaethol**
25 **Cymorth i fyfyrwyr ag anableddau**
26 **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
27 *Siarter y Myfyrwyr*
28 **Cefnogi eich astudiaethau**
29 *Undeb y Myfyrwyr*
29 **Ariannu'ch astudiaethau**
30 **Y Gymraeg**
31 **Y camau nesaf**

# Cyflwyniad i'r canllaw

Mae penderfynu dilyn rhaglen gofal iechyd yn y brifysgol yn gam mawr, ac rydyn ni’n gwybod pa mor bwysig yw hi i chi gael yr holl ffeithiau cyn i chi gyrraedd yma. Rydyn ni am sicrhau bod gennych chi’r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddechrau eich rhaglen gofal iechyd yn hyderus. Dyna pam rydyn ni wedi llunio'r canllaw hwn. Mae’n llawn gwybodaeth i'ch helpu i baratoi ar gyfer y camau cyntaf yn eich gyrfa mewn gofal iechyd.

Darllenwch y wybodaeth yma er mwyn i ni allu archwilio sut y gallwn ddatgloi eich potensial llawn gyda'n gilydd. Rydyn ni am sicrhau eich bod yn gyfforddus ac yn gyffrous i gychwyn ar yr antur hon gyda ni.



Os oes unrhyw wybodaeth yn y canllaw hwn yn codi cwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu ag Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd yn uniongyrchol (HCAREAdmissions@caerdydd.ac.uk) a gallwn drafod eich amgylchiadau unigol yn fanylach i'ch helpu i deimlo'n fwy hyderus.

# Dysgu ac Addysgu

Fel myfyriwr gofal iechyd, byddwch yn profi ystod eang o weithgareddau addysgu a dysgu yn ystod eich rhaglen. Mae pob blwyddyn o'r rhaglen yn edrych ac yn teimlo ychydig yn wahanol wrth i chi gymryd rheolaeth ar eich taith ddysgu, gan feithrin ymreolaeth ac annibyniaeth. Fe welwch hefyd fod yr ystod o weithgareddau yn wahanol o wythnos i wythnos, felly mae rhywbeth newydd i'w ddysgu bob amser. Ein nod yw rhoi eich amserlen unigol i chi cyn pob semester, er mwyn i chi allu cynllunio'ch amser — fodd bynnag, mae ein holl raglenni'n llawn-amser, a gallwch ddisgwyl cael gweithgareddau ar draws pob diwrnod o'r wythnos. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'ch amserlen cyn gynted ag y gallwn ni.

Bydd o leiaf 80% o'r addysgu a dysgu yn digwydd wyneb yn wyneb/ar y campws, er y bydd rhai agweddau ar eich rhaglen yn digwydd ar-lein. Disgwylir i fyfyrwyr fynychu'r holl weithgareddau dysgu ac fel arfer cymerir cofrestrau i fonitro presenoldeb ar ddechrau pob sesiwn sydd wedi'i hamserlennu.

**Mae Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd wedi'i lleoli ar Gampws bywiog Parc y Mynydd Bychan, eich cartref academaidd newydd! Rydyn ni wedi ein lleoli mewn ambell wahanol adeilad ar draws y campws: Tŷ'r Wyddfa (sydd wedi'i leoli ar ein safle newydd, Gorllewin Parc y Mynydd Bychan, ac sy'n llawn cyfleusterau dysgu efelychiadol newydd sbon), Tŷ Dewi Sant, Adeilad Michael Griffiths ac Adeilad Cochrane, yn ogystal ag ardaloedd Addysg Feddygol Ysbyty Athrofaol Cymru sydd drws nesaf. Mae'r Llyfrgell Iechyd wedi'i lleoli ar lawr cyntaf Adeilad Cochrane.**



# Dysgu Canolog — Amgylchedd Dysgu Rhithwir

Dysgu Canolog yw enw amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) Prifysgol Caerdydd, sy’n seiliedig ar y platfform Blackboard Ultra.

Dysgu Canolog yw eich hyb digidol ar gyfer popeth sy'n gysylltiedig â’ch cwrs. Hwn yw eich bag ysgol rhithwir - yma fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich astudiaethau. Mae'n gartref i gynnwys, gweithgareddau ac asesiadau eich cwrs. Byddwch hefyd yn defnyddio Dysgu Canolog i gael mynediad at offer ar-lein pwysig fel Rhestrau Darllen, Panopto i ddal i fyny ar ddarlithoedd, a Turnitin i gyflwyno'ch gwaith. Mae'r cyfan wedi'i gynllunio i wneud eich profiad dysgu mor esmwyth a phleserus â phosibl!

## Darlithoedd

Defnyddir darlithoedd fel arfer i gyflwyno theori neu i'ch cyflwyno i faes astudio, yn aml gyda myfyrwyr yn cymryd rhan. Weithiau bydd eich darlithoedd gyda myfyrwyr o'ch rhaglen chi, ond byddwch hefyd yn mynychu darlithoedd sy'n cynnwys myfyrwyr o raglenni Gofal Iechyd eraill.

Lle y bo'n briodol, byddwn yn rhoi cyflwyniadau a deunydd ychwanegol ar Dysgu Canolog i'ch paratoi ar gyfer cynnwys y ddarlith ymlaen llaw. Rydyn ni’n disgwyl i chi fwrw golwg dros unrhyw ddeunydd a ddarperir cyn eich darlith i helpu i gefnogi eich dealltwriaeth o'r pwnc.

Cynhelir darlithoedd mewn darlithfa fel arfer, lle byddwch yn treulio'r rhan fwyaf o'r sesiwn ar eich eistedd, yn gwrando ar y cyflwyniad ac yn cymryd nodiadau yn ôl yr angen. Bydd staff addysgu yn aml yn strwythuro'r ddarlith yn sesiynau byrrach gydag amser wedi’i neilltuo rhwng sesiynau ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau cyfarwyddedig gyda'ch cyd-fyfyrwyr.

Caiff sesiynau eu recordio a byddant ar gael i chi eu gwylio eto ac atgyfnerthu eich dysgu; fodd bynnag disgwylir i chi fynychu pob darlith wyneb-yn-wyneb.



> *Mae darlithoedd yn ddiddorol... ac er y gall rhywfaint o'r cynnwys fod yn anodd ei ddeall, os oes angen unrhyw eglurhad arnoch chi mae rhywun bob amser yn barod i helpu.*
> **Laura, Myfyriwr Blwyddyn Gyntaf**

- **Hyd**: Uchafswm o 3 awr, ond gydag o leiaf un egwyl.
- **Nifer y myfyrwyr**: Fel arfer yr holl fyfyrwyr ar y rhaglen (neu grwpiau mwy ar gyfer sesiynau Rhyngbroffesiynol).
- **Lleoliad**: ·Darlithfa gyda seddi a meinciau sefydlog neu ystafelloedd dosbarth mwy.
- **Arddull Addysgu**: Cyflwynir gwybodaeth o fewn sbectrwm o ddulliau cyflwyno clyweledol gan gynnwys cyflwyniadau darlith gan ddefnyddio Microsoft PowerPoint neu feddalwedd debyg, fideos, gweithgareddau rhyngweithiol neu arddangosiadau, ac weithiau gall cleifion / gofalwyr / darlithwyr gwadd fynychu i drafod pwnc a rhannu profiad neu arbenigedd.

## Seminarau

Mae'r sesiynau hyn yn aml yn edrych ac yn teimlo fel darlithoedd, ac mae'r pwyslais fel arfer ar gyflwyno gwybodaeth, neu gyflwyno cynnwys. Byddwch yn debygol o gael cipolwg ar arbenigedd y siaradwr ac fel arfer ceir cyfleoedd i ofyn cwestiynau/ymgysylltu â'r siaradwr/wyr. Yn aml, dyma lle bydd rhaglenni'n cyflwyno siaradwyr allanol (cleifion, aelodau o'r teulu, rhanddeiliaid, arbenigwyr clinigol) i wella eich profiad.

Bydd rhai rhaglenni'n cynnwys sesiynau seminar sy'n cynnwys grŵp o tua 10-15 o fyfyrwyr. Fel arfer bydd gennych aelod o staff i hwyluso'r sesiynau hyn ond bydd disgwyl i chi gymryd rhan mewn trafodaethau. Efallai y bydd cyfle hefyd i gymryd rhan mewn rolau grŵp er mwyn hwyluso dysgu ac ychwanegu at eich profiad, fel cadeirydd, arsylwr, neu ysgrifennydd.

## Tiwtorialau

Mae tiwtorialau'n rhoi cyfle i ddysgu'n ddyfnach am bynciau newydd neu bynciau a astudiwyd yn flaenorol. Maen nhw fel arfer yn cael eu trefnu fel dosbarthiadau ar gyfer grwpiau llai o fyfyrwyr yn hytrach na'ch carfan gyfan.

Mae tiwtorialau'n gyfle gwych i chi ofyn cwestiynau na fyddech efallai'n teimlo'n gyfforddus yn eu gofyn mewn darlithoedd, ond dylech deimlo'n gyfforddus yn gofyn cwestiynau a chodi pwyntiau yno hefyd gan ei fod yn gyfle da i chi rannu eich dealltwriaeth gyda myfyrwyr eraill.

Bydd staff addysgu'n gofyn cwestiynau i chi mewn sesiynau tiwtorial i sicrhau bod gennych ddealltwriaeth dda o'r pwnc. Disgwylir i bob myfyriwr ymgysylltu â thrafodaethau a chymryd rhan ynddynt. Mae hwn yn amgylchedd gwych i adeiladu cefnogaeth cyfoedion.

Os yw'r tiwtorial yn gysylltiedig â darlith flaenorol, bydd angen i chi baratoi drwy ddarllen nodiadau'r ddarlith cyn y sesiwn. Efallai y bydd angen gwneud gwaith cyn y tiwtorial fel darllen papur/erthygl/pennod neu fapio neu fyfyrio ar senario glinigol.

> Ro'n i'n bryderus am gwrdd â chymaint o bobl newydd, ond roedd strwythur y grŵp tiwtorial bach yn golygu 'mod i'n dod i nabod y bobl hynny yn gyntaf, ac yna roedd pethau'n hawdd.
> **John, Myfyriwr Ail Flwyddyn**

- **Hyd**: Fel arfer yn para am 50 munud i awr gydag egwyl i ddilyn, ond gall bara'n hirach gyda gwahanol weithgareddau.
- **Nifer y myfyrwyr**: Tua 15 i 30 o fyfyrwyr.
- **Lleoliad**: ·Ystafelloedd addysgu bach gyda chadeiriau a desgiau y gellir eu symud.
- **Arddull Addysgu**: Mae'r fformatau'n amrywio ond fel arfer yn cynnwys gwaith grŵp bach ac mae tiwtorialau yn gyffredinol o natur ryngweithiol.



## Gweithdai

Yn debyg i diwtorialau, mae'r rhain yn aml yn cael eu trefnu fel gweithgareddau grŵp llai. Mae gweithdai'n annog cyfranogiad a dysgu ar y pryd, yn aml gyda chydran ymarferol. Gallwch ddisgwyl 'gwneud' yn ystod y sesiynau hyn, yn hytrach na dim ond 'gwrando'.

- **Hyd**: Fel arfer yn para am 50 munud i awr gydag egwyl i ddilyn, ond gallant bara'n hirach gyda gwahanol weithgareddau.
- **Nifer y myfyrwyr**: Tua 15 i 30 o fyfyrwyr.
- **Lleoliad**: ·Ystafelloedd addysgu bach gyda chadeiriau a desgiau y gellir eu symud. Gallant ddigwydd hefyd mewn ystafell efelychu/ystafelloedd ymarferol yn dibynnu ar y pwnc/gweithgaredd.
- **Arddull Addysgu**: ·Mae gweithdai fel arfer yn cynnwys rhyngweithio ac, yn aml, gweithgaredd gwaith grŵp.

# Efelychiadau

Mae dysgu sut i ymarfer sgiliau a gweithdrefnau gofal iechyd yn ddiogel yn rhan allweddol o'r cwricwlwm yn ein holl raglenni. Mae efelychu'n dyblygu ymarfer clinigol mewn amgylchedd dysgu diogel fel y gallwch fagu hyder a mireinio'r sgiliau allweddol hyn cyn eu defnyddio yn y byd go iawn. Mae gennym ystod eang o weithgareddau efelychu y byddwch yn cymryd rhan ynddynt yn ystod eich rhaglen, naill ai gyda grŵp o fyfyrwyr ar yr un rhaglen â chi, neu'n gweithio mewn grŵp rhyngbroffesiynol.

Mae ein hystafell efelychu yn edrych ac yn teimlo fel ward ysbyty ac mae'n defnyddio modelau, offer, a mowldiadau (colur i efelychu clwyfau ac ati) i greu profiad realistig i ddysgwyr. Mae sesiynau efelychu pellach yn digwydd yn ein gofod preswyl efelychiadol (Y Fflat), lle gall myfyrwyr brofi gofal iechyd o fewn amgylchedd cartref unigolyn.

Wrth gymryd rhan mewn sesiynau efelychu disgwylir i fyfyrwyr gydymffurfio â Chôd Gwisg GIG Cymru Gyfan a gwisgo'r wisg briodol, a gaiff ei rhoi i chi ar ddechrau eich rhaglen.

Yn ystod sesiwn efelychu, gallwch ddisgwyl bod ar eich sefyll am gyfnod o amser, a bydd angen symud a chyffwrdd â chorff neu freichiau/coesau person arall/model. Efallai y bydd angen i chi hefyd symud offer a dodrefn i berfformio'r sgil. Bydd hyfforddiant, goruchwyliaeth ac asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal i'ch helpu i baratoi ar gyfer hyn.



Mae'n ddigon posibl y bydd eich cyfoedion a'ch darlithwyr yn eich gwylio'n agos yn ystod y tasgau hyn; mae arsylwi ar ymarfer yn gyffredin o fewn yr amgylchedd clinigol ac rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i adlewyrchu sut mae'r byd clinigol yn gweithio i wneud eich profiad mor realistig â phosibl. Yn aml gall efelychu gynnwys senario glinigol dan bwysau mawr i brofi eich penderfyniadau dan bwysau. Mae timau addysgu yn gweithio'n galed i sicrhau bod y rhain yn sesiynau sy'n magu hyder, ond gallwch ddisgwyl cael eich herio gan rai sefyllfaoedd.

Yn aml, daw efelychiad i ben gydag ôl-drafodaeth, lle cewch eich annog i fyfyrio a gofyn / ateb cwestiynau am eich dysgu.


- **Hyd**: Gallant bara hyd at uchafswm o 3 awr ond fel arfer cânt eu gwahanu'n adrannau llai gyda seibiannau.
- **Nifer y myfyrwyr**: ·Tua 10 - 30 o fyfyrwyr.
- **Lleoliad**: Yr Ystafell Efelychu / Ardal Gweithgareddau Byw Bob Dydd (Y Fflat) / Ystafelloedd Ymarferol / Ystafell Radiograffeg
- **Arddull Addysgu**: Gall sesiynau efelychu gynnwys arddangosiadau gyda chyfleoedd i ymarfer, neu ddysgu drwy brofiad (datrys problemau) gydag ôl-drafodaeth, adborth ac arweiniad i ddilyn.



## Sesiynau ymarferol / sgiliau

Diben sesiwn ymarferol/sgiliau yw rhoi theori ar waith a datblygu sgiliau drwy wneud swydd go iawn. Byddwch yn cymryd eich tro gyda'ch cyd-fyfyrwyr yn rôl y clinigydd a'r claf; efallai y bydd angen i'r ail ddadwisgo hyd at ei siorts/dillad isaf fel bod y myfyriwr yn rôl y clinigydd yn gallu gweld, teimlo neu symud corff y claf. Mae angen i glinigwyr allu gweld rhan y corff a pherfformio symudiadau, cynnal asesiadau a thriniaethau, ac mae angen iddyn nhw ddysgu i wneud hynny tra'n cynnal urddas y cleient.

Yn aml byddwch chi'n gweithio mewn parau, ond gyda phobl wahanol fel y gallwch ddysgu i ddefnyddio technegau ar wahanol fathau o gyrff, a dynion a menywod lle bo hynny'n briodol. Bydd disgwyl i chi roi adborth i'r person sy'n ymarfer arnoch chi. Mewn rhai sesiynau sgiliau nid yw'n briodol ymarfer ar eich gilydd — yn yr achosion hyn fe welwch fodelau a/neu offer efelychu i adlewyrchu ymarfer clinigol, ond bydd disgwyl i chi ymdrin â'r sesiwn gyda'r un lefel o broffesiynoldeb.



Gallwch ddisgwyl bod ar eich sefyll am gyfnod o amser yn ystod sesiynau ymarferol, a byddwch yn symud ac yn trin corff neu goesau/breichiau person arall. Efallai y bydd angen i chi hefyd symud offer a dodrefn i berfformio'r sgil. (Bydd hyfforddiant, goruchwyliaeth ac asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal).

Mae'n ddigon posibl y bydd eich cyfoedion a'r darlithwyr yn eich gwylio'n agos yn ystod y tasgau hyn; mae arsylwi ar ymarfer yn gyffredin o fewn yr amgylchedd clinigol ac rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i adlewyrchu sut mae'r byd clinigol yn gweithio i wneud eich profiad mor realistig â phosibl.

> I ddechrau ro'n i'n teimlo'n nerfus am weithio'n ymarferol gyda phobl doeddwn i ddim yn eu nabod, ond fe wnaeth gweithio mewn grwpiau bach yn ystod y sesiynau ymarferol a chael ymarfer technegau ar wahanol bobl wir fagu fy hyder i.
>
> **Lilly, Myfyriwr Blwyddyn Gyntaf**

- **Hyd**: Gallant bara hyd at uchafswm o 3 awr ond fel arfer cânt eu gwahanu'n adrannau llai gyda seibiannau.
- **Nifer y myfyrwyr**: Tua 15 - 30 o fyfyrwyr.
- **Lleoliad**: Ystafelloedd ymarferol gyda phlinthiau uchel-isel y gellir eu symud.
- **Arddull Addysgu**: Gall sesiynau ymarferol gynnwys arddangosiadau gyda chyfleoedd i ymarfer, neu ddysgu drwy brofiad (datrys problemau) wedi'i ddilyn gan adborth a chyngor.



## Proffesiynoldeb mewn dosbarthiadau ymarferol

**Nod amgylchedd ymarferol y dosbarth yw adlewyrchu'r amgylchedd clinigol, felly mae disgwyl i chi gyflwyno eich hun mewn ffordd broffesiynol.**

**Mae ymddangosiad proffesiynol yn hollbwysig i fodloni gofynion iechyd a diogelwch, rheoli heintiau mor effeithiol â phosibl ac annog hyder y claf.**

**Bydd disgwyl i chi wisgo'r wisg ymarferol a roddir i chi a glynu wrth y y polisi ymddangosiad a gwisg broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys clymu gwallt hir yn ôl, cadw ewinedd yn fyr (heb farnais), peidio â gwisgo unrhyw beth islaw'r benelin, dim gemwaith (gan gynnwys tyllau ar y corff) a pharchu cyfrinachedd ac urddas myfyrwyr eraill ar bob adeg.**

# Dysgu ar-lein

Efallai y bydd rhywfaint o gynnwys eich rhaglen yn cael ei gyflwyno trwy blatfformau ar-lein (fel arfer Microsoft Teams neu Zoom). Gall hyn fod oherwydd maint y grwpiau sy'n cymryd rhan yn y sesiwn, strwythur yr amserlen ar gyfer yr wythnos honno, neu fod cynnwys/gweithgaredd y sesiwn yn addas i'w gyflwyno ar-lein.

Gall sesiynau ar-lein ddigwydd mewn amser real (yn fyw neu'n “gydamserol”), a bydd disgwyl i chi fynychu trwy fewngofnodi ar yr amser/dyddiad a nodir ar yr amserlen. I gymryd rhan yn llawn, awgrymir eich bod yn defnyddio dyfais gyda meicroffon a chamera sy'n gweithio, gan gymylu'ch cefndir os oes angen. Efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i ardal/lleoliad tawel er mwyn i chi allu canolbwyntio.

Efallai y bydd rhai sesiynau ar-lein wedi'u recordio ymlaen llaw, a gallwch wylio'r rhain mewn ffordd fwy hyblyg i weddu i'ch amserlen eich hun. Gelwir y rhain fel arfer yn 'anghydamserol' ac nid ydynt yn cynnwys elfen ryngweithiol.



## Sgiliau astudio annibynnol (hunan-astudio)


Mae astudio annibynnol yn elfen allweddol o'r rhaglen. Bydd angen i chi allu cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun a strwythuro eich amser o amgylch cydrannau a addysgir ac ymrwymiadau eraill i fodloni'r gofynion astudio annibynnol.

Er bod y rhan fwyaf o bynciau hunan-astudio wedi'u nodi'n glir ac yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau neu weithgareddau penodol i'ch helpu i gyflawni'r dysgu hwn, disgwylir i chi herio'ch hun i ddarllen yn eang ar bynciau, ymchwilio'n ddwfn i gysyniadau, ac archwilio dysgu yn eich arddull neu ddull eich hun. Mae chwant am wybodaeth a dealltwriaeth yn tanio rhagoriaeth o ran perfformiad gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, felly rydyn ni'ndisgwyl i chi ymgysylltu â hyn a defnyddio'ch tiwtoriaid, adnoddau, a gwasanaethau llyfrgell Prifysgol Caerdydd i hybu'ch datblygiad proffesiynol eich hun.

# Offer TG

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr offer angenrheidiol a awgrymir ar gyfer eich astudiaethau yn yr adran “cyn i chi gyrraedd” ar ein gwefan yma.

Bydd angen i chi hefyd gael mynediad at Microsoft Office ac amddiffyniad yn erbyn feirysau, y gallwch eu lawrlwytho am ddim fel un o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd.



# Asesu

**Mae'r holl raglenni gofal iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'u cynllunio i gynnig ystod o asesiadau academaidd, gan gydnabod y math o sgiliau y mae disgwyl i weithiwr gofal iechyd proffesiynol graddedig eu harddangos.**

**Byddwch yn cael eich herio i gyfleu eich dysgu mewn sawl ffordd gan gynnwys gwaith ysgrifenedig, arholiadau, sefyllfaoedd ymarferol, cyflwyniadau, ac amgylcheddau clinigol.**

## Aseiniadau

Mae aseiniadau'n cynnwys ymchwilio, cynllunio ac ysgrifennu darn o waith i fodloni brîff penodol neu ateb cwestiwn penodol. Byddwch yn cael gwybod am y cyfrif geiriau gofynnol, a'r cyfarwyddiadau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno - gwneir hyn ar ffurf cyflwyniad electronig fel arfer, trwy Turnitin ar Dysgu Canolog.

Gallai'r ysgrifennu fod yn ffeithiol ac yn seiliedig ar wybodaeth, er enghraifft ysgrifennu am broses ffisiolegol fel camau adferiad asgwrn ar ôl toriad. Neu efallai y gofynnir i chi archwilio eich profiad a'ch myfyrdodau eich hun ar reoli sefyllfaoedd moesegol cymhleth a heriol yn yr amgylchedd clinigol.

Bydd angen i chi ddangos mathau penodol o swyddogaeth ysgrifennu, megis dadansoddi, cyfosod a gwerthuso. Byddwn ni’n eich helpu i ddeall beth yw'r rhain. Bydd disgwyl i chi gyflwyno eich gwaith eich hun, ond wedi’i ategu gan gyfeiriadau academaidd priodol. Bydd canllawiau’n cael eu rhoi ar chwilio am gyfeiriadau a dyfynnu cyfeiriadau i ategu eich gwaith.

## Cyflwyniadau

Mae bod yn gyfforddus yn siarad o flaen eraill a chyfleu gwybodaeth gymhleth mewn ffordd resymegol yn sgiliau allweddol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae cyflwyniadau’n ffordd o gyfleu’r gallu hwnnw a gallwch ddisgwyl gwneud cyflwyniadau drwy gydol eich rhaglen. Cewch frîff neu gwestiwn manwl i’w ateb mewn cyflwyniad a asesir, ynghyd â manylion y fformat a'r terfynau amser disgwyliedig.

Fel arfer bydd elfen o holi gan eich asesydd neu'r gynulleidfa, a bydd disgwyl i chi ymateb. Efallai y gofynnir i chi hefyd lunio posteri, myfyrdodau, neu gyfryngau ategol eraill i archwilio ac adeiladu eich sgiliau digidol.

## Asesiad ymarferol

Mae rhaglenni gofal iechyd fel arfer yn cynnwys sgiliau sy'n cael eu hasesu fel pe baent yn cael eu perfformio mewn lleoliad clinigol. Daw arholiadau ymarferol mewn ystod o fformatau ac yn aml maen nhw wedi'u teitlo gan acronymau fel:

- **OCSE** (Arholiad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol)
- **PSPE** (Arholiad Ymarferol Penodol i Gleifion)
- **ISCE** (Arholiad Clinigol Strwythuredig Integredig)
- **DOPS** (Sgil Ymarferol a Arsylwir yn Uniongyrchol)

Fel arfer mewn arholiadau ymarferol byddwch yn defnyddio sgiliau penodol mewn senario glinigol-berthnasol ac yn ateb cwestiynau neu'n trafod y rhesymau dros eich gweithredoedd. Byddwch yn cael cyfarwyddiadau llawn am y fformat cyn yr arholiad, a byddwch fel arfer yn cael cyfleoedd i ymarfer hyn mewn sesiwn dan oruchwyliaeth. Efallai y gofynnir i chi berfformio'r archwiliad ar fodel efelychu neu fodel dynol, a allai fod yn un o'ch cyfoedion neu'n un o'r tîm academaidd.

Gall arholiadau ymarferol fod yn brofiad dwys gan y bydd yr asesydd/wyr yn gwylio'n ofalus ac yn gofyn cwestiynau yn aml i'ch annog i arddangos ystod lawn eich gwybodaeth. Mae'n debygol y bydd yr arholiad hefyd yn cael ei recordio gan ddefnyddio camera fideo i sicrhau bod prosesau marcio'n deg ac yn gyson.



## Portffolios


Mae creu cofnod o ddysgu parhaus dros amser yn gymhwysedd craidd i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, a bydd disgwyl iddynt arddangos datblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol eu gyrfaoedd. I'ch paratoi ar gyfer hyn, mae ein rhaglenni'n defnyddio asesiadau portffolio i helpu i sicrhau eich bod yn gyfforddus ac yn fedrus yn hyn o beth.

Mae creu cofnod o ddysgu parhaus dros amser yn gymhwysedd craidd i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, a bydd disgwyl iddynt arddangos datblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol eu gyrfaoedd. I'ch paratoi ar gyfer hyn, mae ein rhaglenni'n defnyddio asesiadau portffolio i helpu i sicrhau eich bod yn gyfforddus ac yn fedrus yn hyn o beth.

## Lleoliad clinigol / dysgu seiliedig ar ymarfer

Fel myfyriwr gofal iechyd, mae'n rhaid i chi gwblhau nifer ofynnol o oriau clinigol fel rhan o'ch dysgu - mae'r rhain yn cyfrannu at gwblhau eich gradd. Bydd mwy o wybodaeth am y rhain yn cael ei chyflwyno yn yr adran nesaf.

### Cael adborth



Bydd adborth yn cael ei roi mewn llawer o fformatau yn ystod eich rhaglen. Gallwch ddisgwyl cael adborth anffurfiol mewn sesiynau dosbarth, gan y tîm addysgu neu gan eich cyfoedion, a bydd disgwyl i chi roi adborth i'ch cyfoedion hefyd.

Byddwch yn derbyn adborth mewn fformatau ysgrifenedig, sain, neu lafar ar ôl asesiad. Gall hyn fod ar sail unigol, neu ar draws y garfan gyfan. Gallwch ddisgwyl i'ch adborth fod yn adeiladol (gan gydbwyso sylwadau cadarnhaol gyda beirniadaeth adeiladol), yn gwrtais ac yn barchus. Bydd adborth yn cynnwys pwyntiau cadarnhaol i roi gwybod i chi beth sydd wedi'i wneud yn dda, yn ystyrlon i'ch helpu i wella gwaith yn y dyfodol, ac yn fanwl, penodol a dealladwy. Dylai hyn ysgogi, ysbrydoli ac annog hunanasesu a myfyrio, a defnyddio ieithwedd sy'n cyfateb i'r hyn a ddefnyddir o fewn y cyfarwyddyd marcio.

# Dysgu seiliedig ar ymarfer a lleoliadau clinigol

Mae lleoliadau (dysgu seiliedig ar ymarfer) yn ffurfio rhan allweddol o'r holl raglenni gofal iechyd. Dyma lle gallwch ymarfer defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau rydych chi'n eu dysgu a'u datblygu gyda goruchwyliaeth a chefnogaeth fel y gallwch ddod yn ymarferydd annibynnol erbyn diwedd y rhaglen. Mae gan bob rhaglen nifer ofynnol o oriau y mae'n rhaid eu cwblhau, gyda chyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer wedi'u trefnu ar draws pwyntiau penodol yn y flwyddyn academaidd.

> Y lleoliadau clinigol oedd uchafbwynt y cwrs i mi. Rydw i wedi bod yn ffodus o gael gweithio gyda mentoriaid parod eu cymwynas sy'n hapus i gefnogi fy nghynnydd.
> **Kayleigh, Myfyriwr Blwyddyn Olaf**

## Ble fydda i a beth fydd disgwyl i mi ei wneud?

Gallwch ddisgwyl gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol i'ch helpu i brofi ehangder y proffesiwn a sicrhau y gallwch ddangos portffolio o brofiad clinigol a fydd yn eich galluogi i fod yn gystadleuol wrth chwilio am waith ar ddiwedd y rhaglen. Byddwch yn gweithio mewn amgylcheddau sy'n adlewyrchu ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol presennol, megis ysbytai, meddygfeydd, lleoliadau cymunedol, cartrefi gofal. Bydd rhai rhaglenni gofal iechyd hefyd yn cynnwys lleoliadau a dysgu seiliedig ar ymarfer mewn clinigau preifat, gyda thimau chwaraeon proffesiynol neu mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

I adeiladu eich profiad, byddwch yn cael lleoliadau ledled Cymru — bydd y lleoliad yn dibynnu ar eich rhaglen a'ch proffesiwn. Bydd hyn yn eich cyflwyno i waith gyda gwahanol boblogaethau gyda demograffeg amrywiol, a gyda goruchwylwyr clinigol a thimau amlddisgyblaethol ehangach sydd â chymaint o arbenigedd y gallwch ddysgu ohono.

Ystyrir bod amseroedd cymudo o hyd at 1 awr y naill ffordd yn dderbyniol ar gyfer lleoliad, ond efallai y gwelwch fod pellter eich lleoliad clinigol o Gaerdydd yn golygu ei bod yn anymarferol cymudo i'r lleoliad hwnnw bob dydd. Gall Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, ar y cyd â'r corff comisiynu AaGIC (Addysg a Gwella Iechyd Cymru), gynnig llety ychwanegol i fyfyrwyr yn y sefyllfa hon, ond gall y llety hwn fod o safon sylfaenol, weithiau heb lawer o fynediad i gyfleusterau.

Yn ystod y lleoliad bydd disgwyl i chi gydymffurfio â'r Côd Gwisg GIG Cymru Gyfan. Byddwch yn cael gwisg glinigol briodol a bathodynnau adnabod ar ddechrau eich rhaglen. Ar gyfer rhai lleoliadau nad ydynt o fewn y GIG bydd angen i fyfyrwyr ystyried opsiynau priodol eraill o ran eu gwisg.

Mae ymarfer clinigol yn anrhagweladwy. Bydd swm y gwaith y byddwch chi'n dod ar ei draws o ddydd i ddydd yn amrywio, a gall y sefyllfaoedd rydych chi'n eu hwynebu fod yn heriol yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol. Bydd disgwyl i chi ddilyn patrwm gwaith wythnosol llawn-amser yr amgylchedd clinigol y cewch eich lleoli ynddo. Byddwch yn debygol o fod ar eich traed am gyfnodau hir o amser a gall seibiannau fod yn afreolaidd gan eu bod yn tueddu i ddibynnu ar y llwyth gwaith bob dydd.



**Nid yw'n anarferol dod i gysylltiad â marwolaeth a phobl sy'n marw, trawma difrifol a salwch, cymhlethdodau, a digwyddiadau annisgwyl mewn amgylchedd clinigol. Gallech hefyd ddod i gysylltiad â sgyrsiau heriol, cwestiynau anodd, a gwrthdaro.**

Bydd disgwyl i chi weithio fel rhan o'r tîm amlddisgyblaethol ac ar adegau gwblhau tasgau nad oeddech chi efallai wedi meddwl eu bod yn rhan o'ch proffesiwn. Cofiwch fod disgwyl i'r holl staff gofal iechyd gyfrannu at ofal sylfaenol.

Gall gwaith gofal iechyd yn aml achosi pwysau ac efallai y bydd gofyn i chi weithredu a gwneud penderfyniadau diogel a phriodol mewn cyfnod byr o amser.

Ein nod yw eich paratoi chi ar gyfer hyn oll, ond mae natur anrhagweladwy bywyd go iawn yn aml yn golygu bod myfyrwyr yn teimlo'n amharod neu'n fregus yn y sefyllfaoedd hyn. Mae staff clinigol ac academaidd yn cydweithio i gynorthwyo a chefnogi myfyrwyr gydag unrhyw heriau maen nhw'n eu hwynebu.

Byddwch yn dysgu sgiliau pwysig gan gynnwys rheoli amser, proffesiynoldeb, blaenoriaethu, cyfathrebu, a gweithio mewn tîm. Bydd cyfleoedd i chi godi unrhyw bryderon neu broblemau gyda'r tîm clinigol neu'r tîm academaidd cefnogol fel y gallwn ystyried strategaethau gyda chi o ran sut i reoli a chefnogi eich dysgu. Bydd timau rhaglenni hefyd yn gweithio gyda chi ar ôl eich lleoliad er mwyn sicrhau bod ôl-drafodaethau digonol yn cael eu cynnal.

Er mai nod lleoliad yw ceisio eich helpu i gyflawni eich nodau a'ch amcanion dysgu, y flaenoriaeth yw rhoi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a'r teuluoedd y byddwch yn gweithio gyda nhw. Bydd eich goruchwylwyr/aseswyr yn gallu trafod sut y gallwch gyflawni eich amcanion dysgu gan ddefnyddio'r profiadau y byddwch yn eu hwynebu ym mhob amgylchedd.

> Cyn i mi fynd ar fy lleoliad cyntaf ro'n i'n poeni dipyn gan fod y sefyllfa gyfan yn teimlo'n anghyfarwydd iawn ac ro'n i'n poeni y buaswn i'n teimlo allan o'm dyfnder. Ond ar ôl cwrdd â'm haddysgwr clinigol, fe wnaeth hi dawelu fy meddwl i ar unwaith gan egluro beth oedd yn ofynnol ohona' i ac y bydden nhw i ddechrau yn rhoi cyfle i mi arsylwi am ychydig ddyddiau er mwyn rhoi syniad i mi o'u dull trin nhw. Mae fy wythnos gyntaf wedi bod yn brofiad anhygoel ac er nad ydw i erioed wedi teimlo mor flinedig, rydw i eisoes yn edrych 'mlaen yn eiddgar am yr heriau a fydd yn fy wynebu'r wythnos nesaf!
>
> **Helen, Myfyriwr Ali Flwyddyn**

## Sut bydd lleoliad yn cael ei asesu?

Ar eich lleoliad, byddwch yn cael eich asesu ar eich gwybodaeth a'ch sgiliau clinigol yn ogystal â'ch proffesiynoldeb (er enghraifft: ymddangosiad ac ymddygiad, tasgau rheoli sylfaenol, iechyd a diogelwch, agwedd a chyfathrebu). Mae ein partneriaid clinigol yn cael hyfforddiant gyda ni ar ddisgwyliadau marcio ac asesu, ac rydyn ni'n cymryd rhan mewn ymarferion cymedroli i sicrhau tegwch a phrofiad cyfartal i fyfyrwyr. Mae'r cymedroli yma'n cynnwys adolygiad allanol annibynnol o sampl o'r portffolios a'r adborth sy'n cael eu rhoi i fyfyrwyr ym mhob carfan.

Ar eich lleoliad, byddwch yn cael eich asesu ar eich gwybodaeth a'ch sgiliau clinigol yn ogystal â'ch proffesiynoldeb (er enghraifft: ymddangosiad ac ymddygiad, tasgau rheoli sylfaenol, iechyd a diogelwch, agwedd a chyfathrebu). Mae ein partneriaid clinigol yn cael hyfforddiant gyda ni ar ddisgwyliadau marcio ac asesu, ac rydyn ni'n cymryd rhan mewn ymarferion cymedroli i sicrhau tegwch a phrofiad cyfartal i fyfyrwyr. Mae'r cymedroli yma'n cynnwys adolygiad allanol annibynnol o sampl o'r portffolios a'r adborth sy'n cael eu rhoi i fyfyrwyr ym mhob carfan.

## A allaf hawlio unrhyw dreuliau?

Gallwch hawlio treuliau teithio a llety yn ôl cymhwysedd - mae Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd yn ad-dalu costau na fyddech wedi mynd iddynt pe na baech ar leoliad ac yn hytrach yn astudio ar safle'r brifysgol.

Cewch adennill treuliau teithio lle mae pris y daith ddyddiol i'r gwaith ac yn ôl yn uwch na phris eich taith ddyddiol i'r Brifysgol ac yn ôl.

Os oes angen i chi aros i ffwrdd o'ch llety arferol yn ystod y tymor ar gyfer lleoliad practis clinigol, gallech fod yn gymwys i hawlio cost unrhyw lety dros dro ar neu ger safle'r lleoliad practis os nad oedd yn ymarferol i chi deithio yno bob dydd o'ch llety arferol.



# Hyfforddiant gorfodol

Er mwyn sicrhau eich diogelwch, a diogelwch eich cyfoedion, cydweithwyr a chleifion, rhaid i chi fynychu a chwblhau sawl elfen o hyfforddiant gorfodol. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys trin â llaw, cymorth bywyd sylfaenol, rheoli heintiau, trais ac ymddygiad ymosodol, cydraddoldeb ac amrywiaeth a phynciau eraill. Bydd rhestr lawn yn cael ei darparu gan dîm eich rhaglen pan fyddwch yn ymuno â ni.

Ni chaniateir i chi gymryd rhan mewn lleoliadau clinigol heb ddangos tystiolaeth eich bod wedi cwblhau'r elfennau hyn. Weithiau bydd angen cyflawni hyfforddiant gloywi, a chewch wybod pryd fydd angen gwneud hyn ym mhob blwyddyn o'ch rhaglen.

Mae rhai o'r cydrannau gorfodol yn cynnwys modiwlau ar-lein y gallwch weithio drwyddynt a derbyn tystysgrif cwblhau. Caiff cydrannau eraill eu cyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth/sesiynau ymarferol a byddant yn cynnwys gweithgareddau corfforol fel gwneud brest-gywasgiadau ar fodel, defnyddio offer symud a thrin i symud person arall, a sgiliau ymdawelu sylfaenol i ddelio ag ymddygiad ymosodol.

Mae sawl agwedd bwysig arall y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw i allu cymryd rhan lawn yn y rhaglen, a byddwn yn edrych ar y rhain yn yr adran nesaf.





# Addasrwydd i Ymarfer

Fel myfyriwr ar gwrs gofal iechyd proffesiynol yn Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, bydd disgwyl i chi gadw at y Safonau Proffesiynol a nodwyd gan y corff rheoleiddio perthnasol fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar gyfer rhaglenni Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ar gyfer rhaglenni Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Radiograffeg Ddiagnostig, a Radiotherapi ac Oncoleg. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol sicrhau eich bod yn addas i ymarfer yn ystod eich astudiaethau a phan gaiff eich gradd ei dyfarnu.

Mae’r Safonau NMC a HCPC ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd. Disgwylir y bydd pob myfyriwr ar raglen sy’n arwain at gymhwyster neu gofrestriad proffesiynol yn ymddwyn ag uniondeb a gonestrwydd, gan ddangos parch at eraill, ac mewn modd sy’n cydymffurfio â’r côd safonau proffesiynol perthnasol.

Cliciwch ar y lluniau i ddysgu mwy.




## The NMC and HCPC Standards


- **Y Côd** - Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio
- **Canllawiau ar ymddygiad a moeseg i fyfyrwyr** - Canllawiau ar ymddygiad a moeseg i fyfyrwyr

## Tystysgrif Fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae rhaglenni gofal iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddatgelu euogfarnau drwy gwestiwn 'ydw/nac ydw' y mae'n rhaid ei ateb ar y ffurflen gais ac ymgymryd â phrawf addasrwydd i ymarfer a gwiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn cofrestru, yn unol â'r manylion ym Mholisi'r Brifysgol ar Bennu Addasrwydd Ymgeisydd i Ymarfer a Chymhwysedd i Fynd ar Drywydd Rhaglenni Astudio a Reoleiddir.

Os na dderbynnir hyn, bydd eich cymhwysedd i astudio yn cael ei gyfaddawdu a byddwch yn cael eich gwahardd o'r rhaglen.

## Ein gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer



Mae gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer Prifysgol Caerdydd yn galluogi camau gweithredu pan fo pryderon difrifol am ymddygiad myfyriwr gofal iechyd. Nid oes rhaid i ymddygiad y myfyriwr fod yn gysylltiedig â gweithgarwch troseddol a gallai fod yn gysylltiedig ag unrhyw weithredoedd sy'n digwydd yn ystod eich astudiaethau neu fywyd cymdeithasol a allai effeithio ar ddisgwyliadau'r cyhoedd o sut y dylai rhywun sydd wedi cofrestru gyda'r NMC neu'r HCPC ymddwyn. Yn yr un modd, gallai eich iechyd corfforol neu feddyliol effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer a'ch gallu i ymgysylltu yn unol â disgwyliadau'r rhaglen o'ch dewis.

# Iechyd Galwedigaethol

Rhaid i bob myfyriwr gofal iechyd gwblhau sgriniad iechyd cyn cychwyn ar leoliadau clinigol neu gyfleoedd dysgu mewn practis. Disgwylir hyn ar adeg cofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r safonau ffitrwydd meddygol ar gyfer pob proffesiwn yn cael eu pennu gan y corff rheoleiddio perthnasol (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal). Mae'r safonau hyn yn bodloni'r meini prawf yn y Ddeddf Cydraddoldeb fel modd cymesur o gyflawni'r nod dilys o sicrhau diogelwch cleifion, ac maent wedi'u targedu at swyddogaethau sy'n rhan annatod o'r ddisgyblaeth. Dylai myfyrwyr allu ymarfer yn ddiogel ac effeithiol fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol heb oruchwyliaeth erbyn diwedd y rhaglen.

Dylai darpar fyfyrwyr sydd â phryderon difrifol y gallai cyflwr meddygol gario goblygiadau o ran eu haddasrwydd i hyfforddi/ymarfer yn y dyfodol, ar gam cynnar (cyn ymgeisio yn ddelfrydol) gysylltu ag Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd er mwyn i ni allu cynnig cyngor proffesiynol. Mae rhwymedigaeth ar Brifysgol Caerdydd i wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr ag anableddau lle mae'r addasiad yn galluogi'r myfyriwr i ymarfer yn ddiogel ac effeithiol heb oruchwyliaeth erbyn diwedd y rhaglen. Fodd bynnag, ni ddylai safonau na chymwyseddau fod yn amodol ar addasiadau.

## Profi ar gyfer Imiwnedd a Haint

Dylai myfyrwyr amddiffyn cleifion, cydweithwyr a'u hunain trwy gael eu himiwneiddio yn erbyn afiechydon trosglwyddadwy difrifol pan fydd brechlynnau ar gael. Disgwylir felly fod myfyrwyr wedi cael eu brechu yn unol â chanllawiau presennol yr Adran Iechyd. Byddwch yn cael brechiadau trwy Iechyd Galwedigaethol i baratoi ar gyfer lleoliad clinigol.

## Asesiad o Alluedd Swyddogaethol

Bydd yr asesiad sgrinio hefyd yn archwilio agweddau ar eich gallu i weithredu (e.e. symudedd, golwg, cof, croen) ac yn ystyried unrhyw amhariadau sy'n gofyn am addasiad rhesymol er mwyn sicrhau ymarfer diogel.

Bydd tystysgrif cliriad iechyd yn nodi a ydych yn addas i hyfforddi, yn ogystal â manylion unrhyw addasiadau angenrheidiol i ganiatáu i chi gyflawni'r cymwyseddau gofynnol ar gyfer graddio ac ymarfer proffesiynol, yn cael eu rhoi i arweinydd y rhaglen. Os nodir addasiadau, bydd angen i arweinydd y rhaglen drafod gyda chi sut y gellir rhoi'r rhain ar waith mewn modd rhesymol. Sylwer efallai na fydd pob addasiad a argymhellir yn rhesymol, yn enwedig ar gyfer ymarfer clinigol, ac felly er ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer yr addasiad gofynnol, efallai na fydd y rhain i gyd yn ymarferol mewn amgylcheddau dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. Cysylltwch â ni ymlaen llaw i drafod ymhellach os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch eich sefyllfa chi.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â Safonau Meddygol ar gyfer Hyfforddiant Iechyd Proffesiynol ar gael drwy'r dolenni canlynol (mae'r rhain yn ddolenni i safleoedd allanol):

- Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Therapi Galwedigaethol
- Ffisiotherapi
- Radiograffeg Ddiagnostig a Radiotherapi
- Myfyrwyr ag Anhwylderau Bwyta Difrifol
- Canllaw Cyffredinol ar Addasiadau i Fyfyrwyr sy'n hyfforddi mewn proffesiynau rheoledig

# Cymorth i fyfyrwyr ag anableddau

Os ydych chi'n fyfyriwr anabl, mae’n bosibl y bydd ychydig yn fwy i feddwl amdano wrth fynd i'r brifysgol. Rydyn ni yma i'ch helpu i gyrraedd eich llawn botensial a gwneud yn siŵr eich bod yn cael y gefnogaeth gywir er mwyn i chi allu manteisio ar bob agwedd ar eich astudiaethau.

Efallai eich bod yn ystyried eich hun yn anabl neu efallai bod yn well gennych beidio â defnyddio labeli. Beth bynnag sy’n wir yn eich achos chi, mae'n bwysig eich bod yn cael y cymorth a’r addasiadau sydd eu hangen arnoch chi.

Mae ein Tîm Anabledd Myfyrwyr yn gweithio gyda myfyrwyr ag ystod o amhariadau, yn gorfforol a synhwyraidd, yn ogystal â'r rhai sydd ag anawsterau dysgu penodol, cyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth, cyflyrau meddygol hirdymor, a chyflyrau iechyd meddwl. Mae'r Tîm Anabledd Myfyrwyr yno i'ch cefnogi drwy gydol eich taith fel myfyriwr, gan sicrhau mynediad at gyngor ac arweiniad yn ogystal ag unrhyw addasiadau a chymorth sydd eu hangen i’ch cynorthwyo yn eich astudiaethau. Eu nod yw eich galluogi i astudio mor annibynnol â phosibl a chreu cymuned ddysgu gynhwysol. Maen nhw’n cynnig cyngor a chymorth a all gynnwys:

- trefniadau mynediad arholiadau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amser ychwanegol, defnyddio offer ergonomig a seibiannau gorffwys
- cymorth i nodi addasiadau rhesymol, gwneud cais amdanynt, a'u rhoi ar waith
- gwasanaethau arbenigol megis sgiliau astudio arbenigol, mentora iechyd meddwl a gwasanaethau gweithwyr cymorth
- cyngor a chymorth ariannu ar Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSA) i fyfyrwyr cartref
- digwyddiad pontio ar gyfer myfyrwyr â Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Os oes gennych chi, neu os ydych chi’n credu y gallai fod gennych chi, anabledd neu amhariad, unwaith y byddwch wedi cael cynnig lle ar gwrs cysylltwch â'r tîm cyn gynted â phosibl fel y gallant eich helpu i addasu i fywyd yn y brifysgol. Cofiwch fod costau'n gysylltiedig ag asesiadau sgrinio anabledd ffurfiol.

**Y Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr**

studentconnect@caerdydd.ac.uk
+44 (0)29 2251 8888

> Roedden nhw’n gymorth i mi o ran deall fy nyslecsia a rhoi'r offer a'r technegau i mi ymdopi ag ef.
>
> **Myfyriwr, Prifysgol Caerdydd**

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydyn ni eisiau creu prifysgol lle gallwch chi fwynhau eich profiad a llwyddo hyd eithaf eich gallu pan fyddwch chi'n astudio gyda ni. Rydyn ni'n cydnabod y bydd amgylchiadau personol weithiau'n effeithio ar eich penderfyniad i wneud cais i'r brifysgol a hefyd y gall eich amgylchiadau newid yn ystod eich astudiaethau. Rydyn ni yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd, beth bynnag fo'ch amgylchiadau.**

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd Prifysgol Caerdydd tuag at EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant) yma.**

## Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd

Rydyn ni'n helpu unigolion sydd â phrofiad o ofal, sydd wedi ymddieithrio neu sydd â phrofiad milwrol, gofalwyr a cheiswyr lloches trwy roi cyngor a chymorth i'w cynorthwyo yn ystod ac ar ôl y brifysgol.

## Anabledd a dyslecsia

Rydyn ni'n gweithio gyda myfyrwyr sydd ag ystod o anableddau, gan gynnwys amhariadau corfforol neu synhwyraidd, anawsterau dysgu penodol, cyflyrau meddygol hirdymor a chyflyrau iechyd meddwl.

## Hunaniaeth rhywedd

Rydyn ni am gefnogi ein holl staff a myfyrwyr yn eu dewis o hunaniaeth rhywedd ac mae gennym ganllawiau i helpu gyda hyn.

## Myfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws(ryweddol) +

Gall myfyrwyr LHDT+ wynebu heriau gwahanol yn y brifysgol ac mae gennym wasanaethau i'ch cefnogi. Rydyn ni am sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth gorau i'n holl fyfyrwyr.

## Myfyrwyr aeddfed

Myfyriwr aeddfed yw myfyriwr israddedig sy'n 21 oed neu'n hŷn. Mae gennym nifer o wasanaethau ar gael i gefnogi eich astudiaethau gyda ni.

## Myfyrwyr sy'n rhieni

P'un a oes gennych chi blentyn eisoes neu eich bod ar fin dod yn rhiant, mae gwasanaethau gennym i gefnogi eich astudiaethau gyda ni. Mae ystafelloedd teulu ar gael yn Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd i gefnogi rhieni sy'n magu plant ifanc.

## Crefydd a chred

Mae Caerdydd yn ddinas amlddiwylliannol lle mae llawer o wahanol grefyddau'n cael eu harfer. Dylid trin unigolion a grwpiau ag urddas a thegwch beth bynnag fo'u credoau crefyddol a/neu athronyddol. Mae ein cyfleusterau'n cynnwys mannau tawel ac ystafelloedd gweddi at ddefnydd myfyrwyr a staff.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch sut y gall unrhyw un o'r nodweddion uchod neu amgylchiadau personol eraill effeithio ar eich cyfranogiad yn ein rhaglenni gofal iechyd, cysylltwch â ni: HCAREAdmissions@caerdydd.ac.uk

Mae'n debygol iawn y gallwn drafod a darparu addasiadau neu argymhellion priodol fel y gallwch wneud dewisiadau gwybodus am eich llwybr astudio dewisol.

## Siarter y Myfyrwyr

Mae Siarter y Myfyrwyr yn amlinellu'r hyn y gallwch chi ei ddisgwyl gan Brifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal â'r rôl sydd gennych chi o ran manteisio ar eich amser gyda ni i'r eithaf.

Rydyn ni'n ymrwymo i sicrhau bod profiad pob myfyriwr cystal ag y bo modd drwy wneud y canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth
- Creu amgylchedd dysgu ysbrydoledig
- Cynorthwyo ein myfyrwyr
- Dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- Gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Canolbwyntio ar ddinasyddiaeth fyd-eang a chyflogadwyedd
- Bod yn agored ac yn onest wrth gyfathrebu



# Cefnogi eich astudiaethau

Bydd pob myfyriwr yn cael tiwtor personol yn ystod ei astudiaethau. Gallwch ddisgwyl cyfarfod â'ch tiwtor personol o leiaf unwaith y semester a gallant gefnogi eich datblygiad academaidd a'ch helpu i ddelio ag unrhyw faterion bugeiliol a allai fod yn effeithio ar eich astudiaeth neu'ch bywyd. Mae'n debyg y bydd Tiwtoriaid Personol yn eich cyfeirio at wasanaethau a systemau cymorth eraill fel eich bod yn cael cyngor arbenigol o'r ffynonellau cywir.

Mae gwasanaethau cefnogi myfyrwyr wrth law i helpu gyda llawer o agweddau ar fywyd yn y brifysgol, gan gynnwys:

- Sesiynau sgiliau Astudio Academaidd
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd
- Gwasanaethau a chymorth TG
- Cyngor ac Arian
- Iechyd a Lles
- Cymorth i fyfyrwyr anabl
- Dyfodol Myfyrwyr (cymorth gyda gyrfaoedd a chyflogadwyedd)
- Cymorth fisa i fyfyrwyr
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cynllun Myfyrwyr sy'n Mentora
- Cyswllt Myfyrwyr
- Tîm Bywyd Preswyl
- Gwasanaethau caplaniaeth



**Dilynwch y tîm ar Instagram i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd 'mlaen yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr: @cu_centreforstudentlife**

## Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn uchel ei pharch ac yn gweithio mewn cydweithrediad agos â myfyrwyr ac Ysgolion i feithrin diwylliant o gynhwysiant a rhagoriaeth. Arweinir y Undeb y Myfyrwyr gan dîm o fyfyrwyr-swyddogion llawn-amser etholedig sy'n cynrychioli myfyrwyr ac ymchwilwyr ac yn rhoi cymorth pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion. Maen nhw'n siapio'r holl weithgareddau a gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig i fyfyrwyr ac mae pob carfan rhaglen yn cael cyfle i enwebu myfyriwr-gynrychiolydd a all sicrhau bod eich safbwyntiau'n cael eu cymryd o ddifrif ar bob lefel.

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gartref i dros 200 o gymdeithasau a 65 o dimau chwaraeon, felly mae rhywbeth i bawb! Mae ein grwpiau myfyrwyr yn rym er lles ar y campws ac yn y gymuned leol. Maent yn cynnal digwyddiadau, gweithgareddau codi arian, a phrosiectau gwirfoddoli y mae tua 15,000 ohonoch yn cymryd rhan ynddynt bob blwyddyn.



# Ariannu'ch astudiaethau

Ceir dau lwybr cyllido i fyfyrwyr gofal iechyd: cyllid y GIG i'r rheini sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso, neu gyllid gan Cyllid Myfyrwyr.

Mae'n bwysig i chi archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i chi fel y gallwch wneud y penderfyniad cywir ar gyfer eich amgylchiadau unigol chi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gyllid ar gyfer eich cwrs, cysylltwch â'r tîm Cyngor a Chyllid Myfyrwyr:

**studentconnect@caerdydd.ac.uk** **+44 (0)29 2251 8888**

# Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn unigryw i Gymru ac yn ganolog i'r brifysgol. Byddwch yn gweld a chlywed y Gymraeg wrth gerdded ar y campws ac o gwmpas y ddinas ei hun.

Croeso! Rydyn ni'n ddinas groesawgar.

Mae Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill wrth wraidd hunaniaeth Caerdydd a'i chymunedau amrywiol. Ein cred ni yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb sy'n byw yma.

Nid oes angen i chi allu deall na siarad Cymraeg i fyw yma. Ond gall dysgu Cymraeg gyfoethogi eich profiad yng Nghaerdydd a'ch helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o Gymru, ei diwylliant, ei hanes a'i phobl. Gallwch ddysgu'r Gymraeg (ac ieithoedd eraill) drwy ein rhaglen Ieithoedd i Bawb.

Caerdydd yw prifddinas Cymru, ac mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol. Mae gennych hawl i:
dderbyn ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
astudio neu brofi bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Rydyn ni yma i wneud hyn yn bosibl a chynnig profiad unigryw i chi fel myfyriwr. Rhan allweddol o hyn yw Academi Gymraeg y Brifysgol.

Cynrychiolir hawliau a lles myfyrwyr Cymraeg eu hiaith hefyd gan:
- Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd
- Swyddog y Gymraeg Undeb y Myfyrwyr



# Y camau nesaf...

Rydyn ni’n gobeithio, ar ôl i chi ddarllen drwy'r adnodd hwn, y bydd gennych chi syniad cliriach o'r rhaglen rydych chi wedi gwneud cais amdani ac y byddwch chi’n fwy parod i benderfynu ai ni yw’r dewis cywir i chi.

Fodd bynnag, os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu amheuon am unrhyw beth sy’n ymwneud â’ch amgylchiadau personol, mae'n hanfodol eich bod chi’n cysylltu â ni cyn i chi wneud y penderfyniadau hynny. Rydyn ni am weithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr i archwilio a chwalu unrhyw rwystrau posibl lle gallen nhw fodoli. Gall cael sgyrsiau agored gyda ni cyn i chi ddechrau wneud eich dyddiau cyntaf yn y brifysgol yn haws a’ch helpu i osgoi unrhyw syrpreisys annisgwyl pan fyddwch chi’n cyrraedd yma.

**Edrychwn ymlaen at eich gweld chi’n fuan!**



## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi gwestiynau am natur y cwrs, neu am eich gallu i gymryd rhan, cysylltwch â thîm Derbyniadau Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd a fydd yn eich cyfeirio at y person mwyaf priodol ar eich rhaglen:
**hcareadmissions@caerdydd.ac.uk**